

Agor y Llyfr

Diolch i'r rhai a ddaeth i'r cyfarfod yn Ebeneser fore Gwener i gael cyflwyniad i gynllun 'Agor y Llyfr' y bwriedir ei weithredu yn Ysgol Gwaun Gynfi.

Os oes unrhyw un arall yn awyddus i ymuno â'r criw a fydd yn ymweld â'r Ysgol i ddarllen storiâu o'r Beibl, rhowch wybod i'r Gweinidog.

Y Gemau

Bydd Andrew Settartree yn arwain tim 'Y Gemau' yn Ysgol Dolbadarn ddydd Iau yr wythnos hon. Gweddiwn y bydd y cyfan yn help i gyflwyno rhywbeth o neges Y Beibl i'r plant trwy'r cynllun hwn sy'n manteisio ar gemau Cwpan y Byd i gyflwyno'r Ffydd.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Nos Lun, Medi 28: Cymdeithas Undebol Deiniolen yn Nhŷ Eldiir am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Hydref 4: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Hydref 4: Gwasanaethir am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Parchg Huw

Y mis nesaf - Deiniolen

Medi 27

5.00 p.m. - Y Parchg Cath Williams

Hydref 4

10.00 a.m. - Y Gweinidog

Hydref 11

5.00 p.m. - Cyfarfod Diolchgarwch yng ngofal yr aelodau

Pritchard. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Hydref 4: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Hydref 4: Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch ac oedfa am 2.00 o'r gloch dan arweiniad y Parchg Dafydd Job, Bangor

CARMEL

Dydd Llun, Medi 28: 'Te Bach' yn y festri rhwng 2.30 a 4.00 o'r gloch.

Nos Wener, Hydref 2: Cynhelir 'Dwylo Prysur' am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Hydref 4: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir yn yr oedfa Gymun am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CYNLLUN EFE

Dydd Gwener, Hydref 2: Cynhelir y Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro am 10.30 o'r gloch.



Y mis nesaf - Llanberis

Medi 27

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

Hydref 4

10.00 a.m. - Y Parchg Huw Pritchard

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Y Parchg Huw Pritchard

Hydref 11

10.00 a.m. - Y Gweinidog

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Oedfa MOLI



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 651: Dydd Sul, 27 Medi, 2015

Ar dop y gert

O greadur sy'n hoff o chwaraeon o bob math, mae'n rhaid i mi gyfaddef nad ydw i'n ddynd rygbi. Hyd at neithiwr, welais i'r un eiliad o gemau Cwpan Rygbi'r Byd. Nid mod i'n fwriadol wedi osgoi'r gystadleuaeth cofiwch, ond rywsut aeth yr wythnos heibio heb i mi weld na chic na daliad na thafliad. Welais i mo gem gyntaf Cymru hyd yn oed am fy mod mewn cymanfa ym Mhenisarwaun bnawn Sul diwethaf. Ond roedd neithiwr yn wahanol.

Roedd criw rhaglen bêl droed *Ar y Marc* ar y radio fore ddoe yn holi beth oedd y term Cymraeg am 'bandwagon'. Beth bynnag ydyw, dwi'n fodlon iawn cydnabod mod i wedi neidio ar y gert honno neithiwr! Roedd yn boenus am ran helaethaf y noson wrth i Loegr fynd ar y blaen, ac aros ar y blaen hyd at y munudau olaf. I rywun mor ddiideall â mi, roedd pethau'n ymddangos mor anobeithiol. Gyda phob anaf cas i chwaraewyr Cymru, roedd yn edrych yn fwy a mwy tebygol mai'r Saeson fyddai'n clochdar yn uchel ar ddiwedd y gêm. Roeddwn wedi digalonni, a bu bron i mi roi'r gorau iddi ac ail afael yn y dasg o baratoi'r golofn hon! Wnes i mo hynny, ond fy ngorfodi fy hun i ddal i wyllo. Ac yna mi ddechreuodd popeth newid, ac fe ddaeth y cais a'r trosiad i wneud y sgôr yn gyfartal. Ac yna'r gic gosb. Ond roedd honno o bellter. Braidd yn rhy bell oddi wrth y pyst i Dan Biggar? Ddim o'r fath beth, a Chymru 3 phwynt ar y blaen! Roedd y chwe munud dilynol yn fwy poenus

fyth. Ond o'r diwedd daeth y chwiban olaf, a minnau erbyn hynny ar ben fy nigon, reit ar dop y gert. Erbyn y gêm nesaf, beryg iawn y bydd gen i glamp o gennin pedr ar fy mhen, fel cefnogwr rygbi gwerth ei halen.

Bydd cefnogwyr pybyr yn wfftio'r fath Philistiaeth. Ac mi allaf ddeall peth felly. Ond gallaf gyfiawnhau neidio ar y gert arbennig hon. Onid oes gan bob Cymro a Chymraes hawl i neidio ar y *bandwagon* pan fydd Cymru'n trechu Lloegr mewn unrhyw gamp?

Mae gan Iesu ddamag am bobl yn cael eu cyflogi i weithio mewn gwinllan ar wahanol adegau o'r dydd (Mathew 20:1-16). Mae rhai'n gweithio am un awr yn unig, ac yn cael yr un tâl a'r rhai a fu'n gweithio trwy'r dydd. Mae'r rhai a fu'n gweithio trwy'r dydd yn cwyno ac yn edliw hynny i'r meistr, ond mae hwnnw'n mynnu bod ganddo hawl i roi'r un cyflog i bawb, faint bynnag o oriau y buont yn gweithio. Yn nheyrnas nefoedd, mae croeso i bobl neidio ar y gert. Bydd rhai wedi bod ar gert y deyrnas am ran helaethaf eu bywyd, ac eraill yn neidio arno yn hwyr y dydd. Ond mae Iesu'n dangos nad oes gan neb reswm dros gwyno am hynny. Bydd rhai wedi dilyn Iesu am flynyddoedd, gan ddal pwys a gwres y dydd. Daw eraill i gredu ynddo yn ddiweddarach yn eu bywydau. Ond rhyfeddod y deyrnas yw na fydd neb yn edliw hynny gan nad ein hymdrech ni ond gras Duw sy'n dod â phawb ohonom i mewn iddi.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul. Boed bendith Duw ar ein haddoliad heddiw. Os na fuoch yn yr oedfa heddiw, ac os oes modd i chi ddod, gwahodddwn chi i ddod atom yr wythnos nesaf.

Yn ystod yr Oedfa Deulu yn Capel Coch am 10.30 o'r gloch bydd Tomos Cledwyn, mab Llifon a Bethan Jones, Cwm-y-glo yn cael ei fedyddio. Croeso cynnes i bawb sydd wedi ymuno â ni ar gyfer yr oedfa arbennig hon.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Cath Williams, Caernarfon. Croeso iddi, a diolch am ei gwasanaeth.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Nid oes oedfa yn Rehoboth heddiw.

Cofion

Dymunwn yn dda i bawb arall sydd heb fod yn dda ar hyn o bryd. Mae amryw ohonoch yn methu â dod i'r oedfaon a dymunwn adferiad buan i chi.

Angladd

Cynhaliwyd gwasanaeth angladd Mrs Olive Williams, Amlwch (gynt o 27 Ffordd Llanllechid, Rachub) yng nghapel Carmel ac Amlogfa Bangor echdoe, dydd Gwener, Medi 25. Bu farw ddydd Mercher, Medi 16 yn 88 mlwydd oed yn Ysbyty Gwynedd.

Roedd y gwasanaeth yn y capel dan arweiniad y Gweinidog a'r Parchg Dafydd Coetmor Williams. Mrs Helen Williams oedd yr organydd.

Cydymdeimlwn â'i merched Sheila, Brenda ac Ellen a'u teuluoedd. Yn Rachub y bu Mrs Olive Williams fyw ar hyd ei hoes, ar wahân i gyfnod o tua phymtheng mlynedd yn Carneddi, a'r pum mlynedd diwethaf a dreuliodd yn Amlwch yng nghartref ei merch Ellen.

Cymdeithas Deiniolen

Cynhelir cyfarfod cyntaf tymor newydd Cymdeithas Undebol Deiniolen yn Nhŷ Elidir am 7.00 o'r gloch nos yfory, nos Lun, Medi 28.

Edrychwn ymlaen at groesawu Annette Bryn Parri, Cynefin atom i agor y tymor newydd unwaith eto. Gwyddom y cawn noson ddifyr o safon uchel, ac edrychwn ymlaen at weld aelodau'r Gymdeithas yn ôl gyda'i gilydd ar ddechrau'r tymor newydd hwn.

Byddai'n braf gweld rhai newydd yn dod atom, ac estynnir gwahoddiad cynnes

felly i unrhyw un sydd heb fod yn y Gymdeithas o'r blaen i ymuno â ni. Dowch, da chi; bydd croeso cynnes i chi.

Cymdeithas Llanberis

Mae dyddiad cyfarfod cyntaf tymor newydd Cymdeithas Undebol Llanberis wedi ei newid. Fe'i cynhelir ym mis Tachwedd yn hytrach na mis Hydref.

Y dyddiad newydd yw nos Fawrth, Tachwedd 10, am 7.00 o'r gloch yn Capel Coch.

Annette Bryn Parri, Deiniolen fydd y gwystai yn y cyfarfod hwn hefyd. Mae croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod, yn cynnwys hen aelodau'r Gymdeithas ac unrhyw sydd am ddod atom i wrando ar Annette yn sgwrsio a chanu amrywiaeth o ganeuon ar y piano. Mae'n sicr o fod yn noson ddifyr a safonol. Dowch draw i fwynhau.

Dau Feibl

Mae'n flwyddyn arbennig iawn yng Nghymru o ran y Beibl Cymraeg.

Yn ystod yr haf, cyhoeddwyd Y Beibl Canllaw (gweler isod).

Ym mis Tachwedd cyhoeddir dau lyfr arbennig arall.

Y cyntaf fydd **beibl.net**, sef y cyfieithiad Cymraeg mewn iaith fodern a welwyd ers rhai blynyddoedd ar y we. Cafodd Efengylau Marc a Luc eu cyhoeddi mewn llyfrynau eisoes, ond eleni bydd y Beibl cyfan yn cael ei gyhoeddi mewn cyfrol am y tro cyntaf.

Mae cryn edrych ymlaen at gael beibl.net mewn llyfr. Bydd ei gyhoeddi mewn llyfr yn golygu bod cyfle i bawb allu darllen y cyfieithiad cyfoes hwn sydd wedi cael croeso mawr gan bobl ifanc, ac yn wir bobl o bob oed ers iddo

fod ar gael ar y we.

Yr ail lyfr fydd **beibl.net 356 o storïau o'r Beibl**. Llyfr llawn lliw ar gyfer y plant fydd hwn, a Beibl plant go iawn. Mewn gwirionedd, hwn o bosibl fydd y gwir Feibl plant cyntaf i'w gyhoeddi yn Gymraeg. Ond pam dweud hynny a chymaint o Feiblau lliwgar deniadol wedi eu cyhoeddi dros y blynyddoedd diwethaf? Am mai dyma'r llyfr cyntaf fydd yn cynnwys testun y Beibl ei hun. Mae pob Beibl plant arall wedi cynnwys aralleiriad neu grynoded o storïau'r Beibl. Ond geiriau beibl.net ei hun fydd yn y llyfr newydd hwn, a bydd hynny yn ei gwneud yn gyfrol arbennig iawn.

Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at weld y ddwy gyfrol. A dweud y gwir, dwi wedi cael copi sampl o'r Beibl plant yn barod, ac mae'n gyfrol hynod o ddeniadol.

Beibl Canllaw

Mae gennyf **un copi** o'r Beibl Canllaw a gyhoeddwyd ddechrau mis Awst ar ôl am y pris gostyngol o £20.

Felly, os ydych chi eisiau arbed £5 oddi ar bris y Beibl hwn, rhowch wybod i mi mor fuan â phosibl trwy ffonio 01286 872390, neu anfon e-bost at john.cilfynydd@btinternet.com.

Cymanfa

Cynhaliwyd Cymanfa Annibynwyr Cylch Cwm-y-glo yn Ysgol Gymuned Penisarwaun ddydd Sul diwethaf. Roedd y gwasanaeth dechreuol yng ngofal Ysgol Sul Bosra, Penisarwaun. Diolch i'r plant am eu gwaith. Roedd yr addoliad dan arweiniad Susan Williams, Ceunant, Llanrug, a chafwyd stori Iesu'n adrodd dameg y talentau gan Andrew Settatree. Diolch i'r ddau ohonynt am ein harwain, a diolch i bawb a gymerod ran yn y cyflwyniad o'r ddameg gydag Andrew.